Cyngor Tref Pwllheli

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A CHOFNODION YR IS BWYLLGOR CYLLID A GYNHALIWYD NOS IAU 19 HYDREF 2017.

Cof;-2310/17 Presennol
.....
Y Maer, Cyng. Henry Rees Williams
Y Dirprwy Gaer, Cyng. Eric Wyn Roberts
Cyng. Elfed Gruffydd, M Sol Owen, Dewi O Jones, Alan Williams, Parch Ioan Gruffydd.

Cof;- 2410/17 Ymddiheuriadau
.....

Yr oedd nifer o ymddiheuriadau.

Cof;-2510/17 Cais Cynllunio
.....
Cais Rhif C17/0883/45/LL
Adeiladu Tŷ Dau Lawr
Tir ger Bryn siriol Allt Salem

PENDERFYNIAD;-Dim Gwrthwynebiad.

Cof 2610/17 Is Bwyllgor Cyllid
.....
Tynnwyd sylw gan y Clerc i'r ffaith fod tua £15,000 o arain wrth gefn ar gyfer prosiectau a bod angen ei glustnodi ar gyfer gwaith yn ystod y flwyddyn bresennol er mwyn tynnu'r cyfalaf i lawr i ffigwr derbyniol.
Bu trafodaeth frwd ar y mater a daeth yr Aelodau I'r penderfyniad o argymell i gyfarfod llawn y Cyngor Tref;-

1 Ehangu'r addurniadau Nadolig o gwmpas Pen Cob
2 Cael TCC yn Pen Lôn Llyn, yn ei chyffordd a Stryd Moch, a Stryd Fawr (tros y ffordd I Whitehall)
3 Cysgodfa Bws ar ffordd yr Ala.
4 Gorchudd I'r Tram yn Glyn y Weddw.

Clerc i drefnu cael amcangyfrif o'r costau ac yna adrodd yn ôl i'r Cyngor i wneud penderfyniad terfynol pa brosiectau i symud ymlaen a hwy.

Ar ôl y cyfarfod bu i'r Cyng. M Sol Owen a Dewi Jones archwilio dogfennau ariannol y Cyngor am y cyfnod 1Ebrill 2017 i ddiwedd Medi 2017 ac ni chafwyd unrhyw beth o'i le.

Robin Hughs
Clerc y Dref.